# YR ANGOR

PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI
A MANCEINION


'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 42. RHIF 9 CHWEFROR 2021 50c


# POBL IFANC TALENTOG LERPWL




*Katarina Johnson-Thompson, enillydd medal Aur Pencampwriaeth y Byd yn Doha, Qatar*



*Sian Summers, 25, o Bootle sydd wedi bod yn cynorthwyo pobl ym Mersi i gael swyddi yn ystod y pandemic*




*Gaby Mendes o 'Talk Twenties'*



*Aron Julius, 25, o Toxteth sydd wedi bod yn gysylltiedig gyda cynhyrchiadau BBC yn cynnwys 'Puppy Love' a 'Moving On'*




*Ymunodd Anthony Gordon gydag Everton yn 2012 pan oedd yn 11 oed*




*Curtis Jones, Clwb Lerpwl gyda Tlws yr Uwch Gynghrair yn Anfield*

Golygyddol

# Y FLWYDDYN ANGHYFFREDIN 2020 – gan D. Ben Rees

Bu dyddiau a misoedd y flwyddyn 2020 yn gwbl anghyffredin, yn wir yn anodd i bawb o bobl y byd, yn arbennig ar ôl i'r coronafeirws gyrraedd Prydain o'r Dwyrain Pell. Gellir galw y flwyddyn 2020 yn flwyddyn Zoom gan i'r ddyfais honno lwyddo i'n cadw ni, oedd yn gorfod hunan ynysu, mewn cysylltiad â'n gilydd. A bu'r profiad hwnnw am y tri mis olaf y flwyddyn yn hynod o effeithiol a bendithiol.

Yn ystod 2020 daeth mudiad o'r enw *Black Lives Matter* yn bwysig, protest yn erbyn hiliaeth a chaethwasiaeth ddoe a heddiw. Sylweddolwyd fod protestiadau *Black Lives Matter* yn ennill cefnogaeth chwaraewyr pêl-droed er fod yna elfen ymhlith cefnogwyr y timau sydd yn amharod derbyn neges y mudiad. Deallaf fod y mudiad yn bwriadu ymladd etholiadau. Trueni mawr fyddai hynny. Gwell i'r mudiad ddylanwadu a defnyddio perswâd fel y gwnaed yn yr Amerig yn yr etholiad yn nechrau Tachwedd. Bu hi yn ras am y Tŷ Gwyn a Joe Biden ymhell ar y blaen gyda'r deinosawr Donald Trump yn ail. Gellir dweud iddo ef wneud cryn lawer o niwed i ddelwedd yr Unol Daleithiau ar lwyfan y byd. Ond go brin y cawn wared ag ef o'r newyddion gan y bydd yn defnyddio trydar (*twitter*) i greu trafferthion i'w olynydd!

Gwelsom yn 2020 ddiwedd ar ein perthynas gyda'r Undeb Ewropeaidd. Bydd hyn yn gryn golled i Brydain yn ariannol ac i Gymru yn benodol. Er enghraifft creodd yr Undeb Ewropeaidd 19,508 o swyddi newydd yng Nghymru rhwng 2014 a 2020, ynghyd â 5,562 o fusnesau newydd. Llwyddwyd i gefnogi 26,765 o Gymry i gael bywoliaeth a 112,865 o bobl i ennill graddau mewn prifysgolion, a chydnabyddiaeth diploma mewn cyrsiau a noddwyd gan arian o'r Undeb Ewropeaidd. Y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi addo dilyn yr esiampl ond mae aml i sylwebydd yn amau hyn. Meddyliwch am un tref yn unig a gafodd gymorth ariannol anghyffredin o Ewrop, a'r dref honno yw Llanelli. Dywedodd Helen Mary Jones o'r Senedd am y dref y bu hi yn ei gynrychioli unwaith:

*In recent years, in one town alone, Llanelli, European structural funds provided £1.5 million for Ffwrnais Theatre; £2.5 million for Llanelly House and £2.8 million to redevelop our town centre*.

Mae'n sicr na wêl Llanelli dros 7 miliwn o bunnoedd o'r Senedd a anfonwyd iddynt o'r trysorlys yn Llundain rhwng 2001 a 2006.

Dywed y Prif Weinidog fod Bregsit yn caniatau i'r Deyrnas Unedig: *"control over our own laws and our own national destiny"*. Os yw gadael yr Undeb oedd yn canoli grym yn Brwsel a Strasbwrg, ac yn trin y werin bobl fel pe baent yn ddinasyddion eilradd, yna mae'n foesol gywir i Gymry a'r Alban a Gogledd Iwerddon adael San Steffan a Whitehall lle y mae'r Llywodraeth yn canoli grym ac awdurdod fel y gwna yr Undeb Ewropeaidd. Ni fydd llais Cymru yn San Steffan yn gryf iawn ar ôl 2024 pan newidir ffiniau yr etholaethau, ac fe gollir wyth sedd yng Nghymru, pob un yn seddau yr wrthbleidiau. Creir wedyn deg etholaeth newydd yn Ne Lloegr a bydd pob un o'r rhain yn seddau a fydd yn ethol Aelodau Seneddol Ceidwadol. Oes cyfiawnder yn hyn o beth? Nid oes gobaith gan Syr Keir Starmer ennill grym yn 2024, efallai yn 2028 neu 2029, os o gwbl. Mae angen i'r Blaid Lafur ennill 100 sedd i gael mwyafrif bychan iawn yn 2028. Dylai Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr weithredu erbyn hynny fel yr oedd fy nhadcu William Rees (Tregaron) yn galw amdano yn 1895 sef Hunan-Lywodraeth a bydd 2021 fel y bu 2020 yn flynyddoedd hau yr had i'r syniad hwnnw. Diolch am les Cymru.

Nid wyf yn hoff o gwbl o glywed yr hysbyseb ***Just Eat*** ond y mae un o sylfaenwyr y cwmni hwnnw yn llygad ei le, David Buttress pan ddywed:

*"I would rather live with people that are responsible to us for us that we can change, than live with a parliament … we can barely influence"*.

Dangosodd Covid-19 yn 2020 fod hynny mor wir yn Lloegr, bu yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn ffodus fod ganddynt yng Nghaeredin, Caerdydd a Belfast seneddau bychain, pwerus a gwahanol oedd yn llawer mwy gofalus a derbyniol.

## GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Mawrth 2021** erbyn bore Llun, 1 Chwefror 2021 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i garthdriveben@gmail.com
- **Rhifyn Ebrill 2021** – erbyn bore Llun, 1 Mawrth, 2021 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd pnawn Llun, Mawrth 1.
- **Rhifyn Mai 2021 –** erbyn bore Iau, 1 Ebrill, 2021, gan yr aiff y cyfan am hanner dydd i Benllyn i'w osod.
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).
- **Croeso – eich llythyron ac ambell erthygl i'r Golygydd cyn 1/2/2021.**

**Daliwch i swatio a darllen Yr Angor**

*YSGRIF GOFFA*

# Mrs Anne Staples Jones

## *(1933-2020)*

## *o Gymdeithas Cymry Birkenhead*

**Dros y blynyddoedd diwethaf rydym, fel cymdeithas, wedi colli nifer fawr o'n "hoelion wyth" - aelodau sylfaenol o'n dyddiau cyntaf yn y chwedegau; cyfeillion a fu'n weithgar a ffyddlon dros amser maith. Iddynt hwy mae'n dyled am i ni barhau hyd heddiw. Tristwch arbennig yw i ni golli un o'n rhai mwyaf blaenllaw, Anne Staples Jones, a fu farw ar Hydref 1af mewn cartref gofal ym Mhenbedw. Oherwydd gwaeledd ni allai Anne fynychu ein cyfarfodydd ers Tachwedd 2018 ond, hyd hynny, roedd wedi parhau yn ffyddlon ac yn dal i wneud cyfraniadau gwerthfawr.**

**Ganwyd Anne yn 1933 ym Mangor yn un o bedwar o blant. Wedi ei hyfforddi fel nyrs daeth i weithio yn Ysbyty Clatterbridge hyd nes iddi ymddeol. Wedi dod i'r Glannau roedd yn bwysig i Anne gysylltu â'r Cymry drwy'r Aelwyd, a chapel Noddfa, Bebington. Yno, cyfarfyddodd â Dai Jones o Arfon a'i briodi ym Mangor yn 1957. Gwnaethant eu cartref yn Bebington ac yno ganwyd Glyn a Dilys. Daeth Noddfa yn gartref ysbrydol a chymdeithasol i Anne hyd 2000 pan gaewyd y capel. Yno roedd Anne yn gefnogol i bob agwedd o'r gwaith: bu'n llywydd y merched, yn aelod gwybodus o'r dosbarth beiblaidd, yn cynnal boreuon goffi ac yn gofalu am bregethwyr gwadd.**

**O'i dyfodiad i'r ardal glynodd Anne at bob achos Cymraeg: y capel, yr Aelwyd a chymdeithasau yma ac yn Lerpwl. Er iddi dreulio y rhan fwyaf o'i bywyd yn Lloegr, heb ddim amheuaeth, Cymraes i'r carn oedd Anne a, thrwy ei hoes, dilynodd pob agwedd o ddiwylliant Cymru ac i ofalu bod ei phlant yn gyfarwydd â'r cefndir oedd mor bwysig iddi..**

**Pan ffurfiwyd Cymdeithas Cymry Birkenhead roedd Anne a Dai yn frwdfrydig a gweithgar o'r dechrau. Bu Anne yn ysgrifennydd cydwybodol o 1970-1975, yn llywydd ddwy waith 1977-78 a 2004-5, yn aelod o'r pwyllgor droeon ac ar bwyllgor yr Angor o 1985-2018. Bu'n aelod o'r parti canu dan ofal Eira Pari-Huws a Medwen Williams a'r côr adrodd dan ofal Mair Rees Jones. Ymhyfrydai ym mhob agwedd o ddiwylliant ein gwlad – cerddoriaeth, rhyddiaeth a barddoniaeth ac roedd ei gwybodaeth ohonynt yn eang. Gallai adnabod dyfyniad digon amwys, er syndod i nifer ohonom; gallai adrodd latheni o farddoniaeth ac o'r Beibl. Roedd Anne yn eisteddfodwraig brwd a chanddi gof eithriadol am leoliad a dyddiad pob un ac enillwyr y goron a'r gadair. Yn ein nosweithiau 'cwis' Anne oedd ar y blaen yn ei gwybodaeth o'n diwylliant.**



**Pan gaewyd capel Noddfa aeth Anne i addoli yn Christchurch, Bebington – yn ôl i'w magwraeth yn yr Eglwys yng Nghymru. Yno bu yr un mor ffyddlon a gweithgar ag a fu yn Noddfa gan ymgymeryd â gwaith wirfoddol yno ac yn y gymdeithas eang. Wedi ymddeol o'i gwaith yn Clatterbridge cadwodd ei chysylltiad drwy waith 'Cyfeillion yr Ysbyty', yn yr hospis lleol a'r WVS. Parhaodd i gynal boreuon goffi yn ei chartref i godi arian. Nid oedd Anne yn un i segura ac wrth ei bodd yn helpu eraill a chadw'n brysur. Ergyd creulon oedd ei gwaeledd i un mor weithgar a phrysur.**

**Yn Christchurch, ar Hydref 21ain, cynhaliwyd gwasanaeth goffa i Anne wedi'r arwyl i'r teulu yn unig yn Landican. Oherwydd y feirws gwahoddedigion yn unigoedd yn bresennol. Ond cafodd nifer ohonom ddilyn y gwasanaeth meddylgar a theimladwy ar y we – gwasanaeth a bwysleisiodd cymeriad Anne a'i Chymreictod mewn darlleniad a cherdd. Yng ngeiriau Glyn, ei mab, ac yng nghân Bryn Terfel, wrth ffarwelio,**

***'huna'n dawel, annwyl gyfaill'***

**Fel Cymdeithas, anfonwn ein cydymdeimladau dwys i Glyn, Dilys a'u teuluoedd oedd mor annwyl gan Anne ac at ei chwaer Morfydd a'i brawd Hugh yng Nghymru.**

---




*Annwyl Olygydd,*

Cefais bleser mawr yn darllen erthyglau E. Brian Thomas a ymddangosodd yn *Yr Angor.* Roedd gen i ddiddordeb arbennig gan mai ym Mhenmachno y magwyd fy mam a gallaf olrhain ein hachau at frawd yr Esgob William Morgan oedd yn un o'm cyn-deidiau! Diddorol oedd darllen fod teulu Brian Thomas yn byw yn Nhŷ Mawr Wybrnant a'i fod yn arfer ymweld â nhw yno.

Ganwyd fi yn Lerpwl gan mai yno y cyfarfu fy rhieni. Athro oedd fy nhad a phan dorrodd y rhyfel aeth gyda'i ddosbarth i sir Amwythig. Galwyd ef i'r fyddin yn 1940 ac aeth mam a finna i Benmachno at Nain a Taid. Roedd llun y pentref fel yr oedd ers talwm yn gyfarwydd iawn i mi ac yn dod ag atgofion hapus i'r cof.

Soniodd Brian am "Traction Rhys", ei ewythr. Cofiaf y Traction yn iawn, a dyma'r tro cyntaf i mi glywed neb yn sôn amdano. Roedd yn gwneud sŵn uchel iawn wrth gario'r llechi o'r Cwm i stesion Betws. Adeiladwyd "Rhiw Bach Tramway" i gario llechi o chwareli uchaf Cwm Penmachno dros y mynydd i lawr i Flaenau Ffestiniog. Byddai'r llechi o'r chwareli isaf yn mynd ar longau ar afon Conwy, ond ar ôl gwneud y rheilffordd cawsant eu cario ar y Traction i orsaf Betws.

*Yn gywir*

*Hywel Roberts,*
*Caernarfon*

# Cyfraniad pwysig JOHN WILLIAM JONES (1865-1945) i Ddinas Lerpwl

Adeiladydd hynod o lwyddiannus yn ninas Lerpwl yn yr ugeinfed ganrif a chymwynaswr i'r Cymry ac i'r dystiolaeth genhadol yng nogledd ddwyrain yr India oedd J.W.Jones . Ganwyd ef  yn 1865 yng Nghae'r Hafod, Cyffylliog, Dyffryn Clwyd yn fab i William ac Elinor Jones. Roedd ei dad yn hannu o Ysbyty Ifan a'i fam o Gyffylliog. Ychydig o addysg a gafodd, a phenderfynodd ymfudo i Lerpwl ym mis Ionawr 1887 a mentro ar waith saer coed gyda chwmni Cymraeg enwog o fasnachwyr coed ac adeiladwyr, David Roberts a'i feibion yn Fox Street.

Gan ei fod yn uchelgeisiol, fe'i diwylliodd ei hun, gan ddysgu'n gyflym mewn dosbarthiadau nos ac yn yr Ysgol Sul, ac erbyn 1895, gallai sefydlu cwmni o adeiladwyr. Dyna'r flwyddyn y priododd Sarah Catherine Owens o Lanrhaeadr ym Mochnant a hynny yng Nghapel Fitzclarence Street. Ganwyd iddynt bump o blant, a bu'r meibion i gyd (pedwar mab) yn gyfarwyddwyr cwmni adeiladu J. W. Jones.

Bu yn weithgar iawn ym mywyd crefyddol y ddinas, ac fe'i hetholwyd ef yn flaenor yng Nghapel y Presbyteriaid Cymraeg, Webster Road ym 1911. Bu o fudd mawr pan adeiladwyd y capel newydd Cymraeg yn Heathfield Road ym 1925-26 a bu yn hynod o haelionus. Cyfranodd swm o £4,300 tuag at godi capel Heathfield Road a £500 i Gronfa Gweinidogion Hen a Methedig.

Roedd wrth ei fodd fel aelod o bwyllgorau ei Henaduriaeth a'i enwad. Fe'i hapwyntiwyd ef yn aelod o Bwyllgor Gwaith y Genhadaeth Dramor, ar Bwyllgor y Gronfa Ganolog Fenthyciol a Phwyllgor y Symudiad Ymosodol. Bu yn Gadeirydd Pwyllgor Adeiladau Henaduriaeth, oedd yr adeg honno yn cynnwys capeli fel Dalton-in-Furness, Whitehaven, Spennymoor, Middlesborough, Sunderland a Witton ac eraill lawer. Gwahoddwyd ef i fod yn Gadeirydd Pwyllgor Cymdeithas Feiblau Cymry Lerpwl, Trysorydd Casgliad y Jiwbilî a Chronfa Cenhadon Methedig, ac o fewn Eglwys Heathfield Road bu yn Drysorydd ac yn arweinydd medrus. Ym 1933, fe'i hetholwyd ef yn Llywydd yr Henaduriaeth.


Ym 1938, addasodd i'r Gymraeg basiant Saesneg o eiddo cwmni James Broadbent a'i Feibion, Leeds yn dwyn y teitl, *Adeiladu yr Eglwys*. Amcan y pasiant oedd cyfleu i'r ifanc ac i'r oedolion anghenion pennaf yr eglwys gartref fel ag yn yr India, sef gobaith, gwroldeb, gwasanaeth a gofal. Darparodd J. W. Jones ddwy set o feini at wasanaeth yr eglwysi, ac anfonai'r blociau mewn cist i'r eglwysi a ddymunai lwyfannu'r pasiant a oedd yn para tuag awr a hanner.

Cymerodd ran yn y tri degau fel aelod o Gyngor Dinas Lerpwl yn enw y Blaid Geidwadol. Safodd dros Allerton yn etholiad 1935, gan ennill y sedd.

| | | |
|---|---|---|
| J. W. Jones, | Ceidwadwr | 1,968 |
| C. E. Hargreaves | Llafur | 795 |
| **Mwyafrif** | | **1,173** |

Safodd cyd-flaenor iddo dros Much Woolton, sef J. R. Jones, a hynny yn lliwiau'r Rhyddfrydwyr ym 1935, ond ni enillodd y sedd. Roedd J. W. Jones yn wr adnabyddus. Safai ei bencadlys yng nghanol stryd brysur Allerton Road, a bu yn adeiladydd ar raddfa fawr ym maesdrefi Allerton, Childwall, Woolton, Springwood a Speke. Deuai bechgyn ifanc nobl a chefnogol o gefn gwlad Cymru, o Sir Drefaldwyn yn y Canolbarth a holl sioredd Gogledd Cymru yn brenstisiaid iddo. Byddai'r seiri coed a'r seiri maen hyn yn aros am oes yng ngwasanaeth y cwmni. Yn wir, ceid aml un yn gwasanaethu am hanner can mlynedd. Defnyddiodd Corfforaeth Lerpwl yn y dau ddegau ei gwmni i adeiladu tai cyfforddus yn lle'r slymiau, a gellid dibynnu ar ei onestrwydd ac ar safon y Gwaith. Tra y bu yn Gynghorwr Dinesig, fe wasanaethodd ar y Pwyllgor Tai a Dŵr, a chyfrifid ef yn siaradwr effeithiol yn y ddwy iaith, a hynny yn y siambr ac ymhlith y Cymry.

Bu J. W. Jones yn byw yn Garth Drive, Allerton. Yn wir, ef a adeiladodd y stryd honno, gan symud i'r tŷ mwyaf ei faint a'i alw yn Hiraethog. Gofalai gael morwynion Cymraeg eu hiaith i wasanaethu y cartref a rhoddodd yr enw Tanat Drive ar stryd gyfagos er parch i'w briod. Bu farw ar y 24ain o Awst, 1945 a gosodwyd ef i orffwys ym mynwent Allerton. Ceir llun o'i fedd yn y gyfrol, *Cymry Lerpwl a'r Cyffiniau* (1947) a llun o'i swyddfa yn *Hanes Rhyfeddol Cymry* Lerpwl (Talybont, 2019).




***Swyddfa J.W. Jones yn Allerton Road (heddiw gwelir Iceland) ar y lleoliad.***

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Cyfarchion cynnes iawn o Eglwys Seion a gobeithio eich bod yn cadw yn iach.

Ar hyn o bryd mae aelodau Seion yn mwynhau iechyd da, fel arfer cefais air ar y ffôn gyda pob un ond Mrs Marged Jones, Rhuthun ein blaenor annwyl.

Erbyn hyn mae Marged wedi symud i gartref gofal gan ei bod yn sylweddoli na allai ymdopi ar ei phen ei hyn yn ei chartref. Mae wedi ymgartrefu yn dda yn y cartref newydd, Cysgod Y Gaer yng Nghorwen. Bu yn rhaid iddi hunan ynysu am bythefnos ond erbyn hyn mae wedi cyfarfod y gweddill o'r preswylwyr ac i'w gweld yn setlo i lawr yno. Anfonwn ein cofion cynnes ati gan ddymuno pob hapusrwydd iddi yn ei chartref newydd ac fe gofiwn amdani yn ein gweddïau.

Dyma ni ar drothwy blwyddyn newydd 2021. Mae'r flwyddyn 2020 wedi bod yn flwyddyn rhyfedd iawn, blwyddyn na chafon brofi ei math erioed o'r blaen.

Cawsom wasanaeth yn y capel pob pnawn Sul tan tua diwedd mis Mawrth ac yna dim gwasanaethau yn cael eu cynnal yn y capeli er bod rhai capeli ar agor ond yn cyfyngu y rhif o wrandawyr a dim canu emynau. Diolch i'r oes dechnegol rydym ninnau, erbyn hyn, yn cael gwasanaeth ar y Sul trwy gyfrwng Zoom.

Mawr iawn yw ein diolch i'r Parchedig Ddr D Ben Rees a'r Parchedig Robert Parry am gynnal y gwasanaeth pob bore Sul ac i Mike Farnworth a'i griw am edrych ar ôl yr ochr dechnegol. Diolch hefyd i Dr John Williams am yr holl waith mae yn ei wneud "tu ol i'r lleni". Rhwng hyn a *Dechrau Canu* ar S4C a'r bregeth ar y radio mae'r Sul yn llawn, unwaith eto. Y peth am trawodd fi fwyaf yn ystod y naw mis olaf o 2020 oedd caredigrwydd ffrindiau a chymdogion tuag at y rhai mewn angen. Pawb yn rhoi cymorth lle'r oedd ei eisiau.

Dyma ni rwan a'r drothwy blwyddyn newydd 2021 ac edrychwn ymlaen yn ffyddiog am flwyddyn well. Mae llawer ohonom wedi cael y brechlyn yn barod ac yn edrych ymlaen am yr ail. Ymhen amser fe fydd pawb wedi ei dderbyn. Mae'r dyfodol yn ddirgel i ni ond mae rhagolygon am flwyddyn well. Canolbwyntiwn ar yr ochr olau a chyfrif ein bendithion, sydd yn niferus iawn. Credaf mai'r unig ffordd i wynebu'r dyfodol yw gyda ffydd a gobaith a pheidio digaloni pan mae pethau yn mynd o chwith. Credwch yn gadarn y daw dyddiau gwell.

Pob bendith arnoch a cadwch yn ddiogel.

*Nefol Dad, erglyw ein gweddi*
*wrth wynebu'r flwyddyn hon*
*mae'n hamserau yn dy ofal*
*a'n helyntion ger dy fron,*
*dyro brofi*
*hedd dy gariad, doed a ddel.*

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Gwynebwn ar gyfnod heriol a phryderus ar gychwyn blwyddyn newydd 2021.

*Gwynfyd a gwae yw gwead y cread,*
*O'u plethiad cywrain y nyddir profiad.*
*Ni bu unrhyw wae nad oedd yno wynfyd.*
*Nid llawn yw llawenydd nas profwyd mewn adfyd.*
*Pan welwn hyn a'i ddysgu'n iawn*
*Trwy helynt y byd yn ddiogel yr awn.*
meddai y Parchedig D. R. Thomas

Beth bynnag fydd raid i ni ei wynebu y flwyddyn hon rhaid glynu wrth addewidion yr Arglwydd Iesu Grist, hyn a'n cynnal ac a fydd yn gysur i ni. Rhoi ein llaw yn llaw yr Arglwydd; "Bodlon os caf ymaflyd yn ei law".

Diolch i'r rhai hynny fu'n gyfrifol am oedfaon y Zoom, i'n gweinidog y Parchedig Ddr. D. Ben Rees, y cynorthwyr bugeiliol Parch. Robert Parry, Dr. Pat Williams, Dr. John Williams y technegydd Mike Farnworth ac eraill, a chael cyfle i weld ein gilydd a chael sgwrs ar y terfyn.

Rhaid edrych ymlaen i'r dyfodol, daw y Gwanwyn yn y man i drawsffurfio'r ddaear a bywyd newydd yn cyniwair o dan y pridd.

Anfonwn ein cofion at holl aelodau a charedigion Bethel. Byddwch oll yn ofalus. 'Daw eto haul ar fryn'.

- Llongyfarchiadau i Anne Jones, Allerton ar ddathlu ei phen-blwydd ar ddiwedd mis Hydref. Nid oedd yn barod i ddatgelu ei hoedran ond cyfaddefodd imi y bydd hi'n gan mlwydd oed ymhen pymtheg mlynedd!



- Llongyfarchiadau i Eryl a Mike Chitty ar enedigaeth ŵyr sef Evan Lloyd Chitty, mab i Martin a Karin. Dymuniadau gorau i Naini a Taid a'r teulu i gyd ar yr achlysur hapus.
- Llongyfarchiadau i Bethan Wyn Jones a Steve ar enedigaeth Dylan.



***Evan Lloyd Chitty***

Llongyfarchiadau hefyd i Nain, sef Helen Wyn Jones, Allerton. Pob bendith i'r teulu.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Diolch i'n blaenor John Lyons am ei gyfraniad ar 'Dechrau Canu, Dechrau Canmol' a ddaeth o Lerpwl ar Sul y Cofio. Roedd ei hanes fel 'evacuee' o Lundain i Sir Fôn yn ddiddorol dros ben ac hefyd ei sylwadau am ei ffydd. Er ei loes o golli Nellie, ei chwaer a Marian ei wraig, yn agos iawn at ei gilydd teimlodd bresenoldeb Duw trwy'r cyfan.

Dymunwn fel eglwys gydnabod ei holl ofal drosom ar hyd y blynyddoedd a'i gefnogaeth i bawb ohonom, ac i'w Weinidog yn arbennig.



***John, ei dad a Nellie, ei chwaer***



***John Lyons***

## MERSEYSIDE WELSH HERITAGE SOCIETY

# *APPEAL 2020 AND 2021*

***prepared by Dr. D. B. Rees (Chairman/Author), Rachel Gooding (Treasurer) and Dr. Arthur Thomas (Secretary)***

**LIVERPOOL WELSH: A REMARKABLE HISTORY.**

Gwasg Y Lolfa, Talybont has given us the good news that the volume *Liverpool Welsh: A Remarkable History* will be in the booksellers summer 2021, so we have time to achieve the goal of £7,500 by 1 June, 2021.

We are so grateful for List 9 as we had received by 31 December the sum of £3,340. Every donation will be gratefully received and acknowledged in the book by inserting your name and a gift will ensure you a copy of a hard back volume. It will be signed and you will be invited to the launching of the book in June 2021.

**List one: £550; List two: £450; List 3: £200; List 4: £420; List 5: £510; List 6: £185; List 7: £150; List 8: £350; ist 9: £325.**

### LIST NINE (1/11/2020 i 31/12/2020)

1) Ted Clement-Evans, Aigburth, Liverpool the sum of .........£100
2) Mrs Beryl M. Jones, Welwyn Garden City, Hertfordshire the sum of ...................................................£100
3) Anonymous, Liverpool the sum of....................................£100
4) Dewi G. Hughes, Llanbadarn Fawr, Ceredigion the sum of ...........................................................................£25

**Total / Cyfanswm .................................£325**

So we have reached the sum of £3,340 as well at the £2,000 from the proceeds of the Welsh Book.

***Please assist as soon as it is possible for with your help we will get to our goal of £7,500, another £2,175 needed***

***Can you please send your donations to Merseyside Welsh Heritage Society / Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi c/o 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW.***

**<u>Gobaith Mewn Gweithrediad</u>**

## APÊL BLWYDDYN NEWYDD 2021

**Anfoner y rhoddion i 'Gobaith mewn Gweithrediad' i Dr. D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Allerton, Liverpool L18 6HW**

**Derbyniwyd y swm o £400 fel Apêl Nadolig Elusen Gymraeg o Lerpwl tuag at anghenion plant bach yn Uganda. Diolchir i bawb**



# *EMYN DECHRAU'R FLWYDDYN*

Gobeithio nad yw'n rhy hwyr i mi gael dymuno Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr *Yr Angor*. Rwyf am gyfeirio chwi at un o'r emynau gorau sydd gennym yn yr iaith Gymraeg – sef emyn rhif 92 yn *Caneuon Ffydd*. Mae'r pennill cyntaf fel hyn –

*Tad tragwyddoldeb plygaf ger dy fron,*
*Ceisiaf dy fendith ddechrau'r flwyddyn hon;*
*Trwy blygion tywyll ei dyfodol hi,*
*Arweinydd anffaeledig, arwain fi.*

Awdur yr emyn yw Thomas John Pritchard 1853-1918, brodor o Eglwys Fach yn sir Geredigion a ddefnyddiai'r enw barddonol 'Glan Dyfi'. Roedd yn weinidog gyda'r Wesleaid mewn sawl cylchdaith yn Ne Cymru ac yn olygydd eu cylchgrawn sef *Y Winllan*. Yn ôl *Hanes Ystadegol yr Eglwys Fethodistaidd*, fe fu farw yng Nghaerodor (Bryste) ond yn ôl llyfr *Emynau a'u Hawduriaid* gan John Thickens yng Nghaerdydd y bu farw.

Yr oedd gamddo frawd, Joseph Pritchard oedd hefyd yn weinidog gyda'r Wesleaid ac a anwyd yn yr un flwyddyn (efeillaid efallai?) ac a fu farw yn 1912 yng Nghaerdydd.

Credaf fod pennill olaf yr emyn yn un o'r penillion mwyaf gafaelgar yn ein hemynyddiaeth ac y mae'n addas i'w ganu, nid yn unig ar ddechrau blwyddyn ond hefyd ar unrhyw adeg:

*Heneiddia'r greadigaeth, palla dyn,*
*Diflanna oesoedd byd o un i un;*
*Er cilio popeth, un o hyd wyt ti:*
*Y digyfnewid, Dduw, o arwain fi.*

Yr ydym yn ffodus fod yr emyn yma yn *Caneuon Ffydd* gan na chynhwyswyd ef yn llyfrau'r Annibynwyr na'r Bedyddwyr. Roedd, fodd bynnag, yn *Llyfr Emynau a Thonau* y Methodistiaid Calfinaidd a Wesleaidd.

Y dôn yn *Caneuon Ffydd* yw'r dôn '*Holley*' gan George Hews. Efallai dylwn nodi nad hwn yw'r un gŵr a ymddangosai yn *C'mon Midffild* ond Americanwr oedd yn byw o 1806 i 1873 ym Massachusetts. Gŵr amryddawn oedd hwn. Roedd yn ganwr, yn organydd, yn athro ac yn wneuthurwr pianos ac mae'n dôn i'r dim yn cyfleu yr ansicrwydd a'r hyder cyferbyniol a geir yn y geiriau.

Yn yr hen lyfr Emynau rhoddwyd dwy dôn uwchben y geiriau. Un ohonynt yw *Troyte's Chant* sy'n boblogaidd iawn o hyd a'r llall yw *Eventide* gan W. H. Monk. Mae'r dôn *Eventide* yn gyfarwydd i ni, wrth gwrs ar y geiriau Saesneg *Abide with Me*.

Mae yna rywfaint o dystiolaeth bod T. J. Pritchard wedi cyfansoddi'r geiriau ar gyfer y dôn *Eventide* ac wrth gwrs mae nhw'n priodi yn dda. Yn ychwanegol, mae yna ambell i adlais o *Abide with Me* yng ngeiriau emyn T. J. Prichard.

***JBW***

***Myfyrdod ar***

# *ROEDD YN CYFRIF*

Gofynnwyd imi ysgrifennu teyrnged i ysgol feistr un tro, oherwydd roedd wedi fy nysgu yn yr Ysgol Ramadeg ac wedi bod yn gynorthwy imi pan oeddwn yn y coleg. Roedd, heb os nac onibai, yn ddyn gwerthfawr dros ben gyda'i ddawn ac nid ddichon neb fesur maint ei ddylanwad ar blant yr ardal. Fe wnes, ac yn y deyrnged ni soniais am ei allu academaidd, na'i yrfa ond dweud mai yn ei fywyd a'i waith ac heb anghofio ei ddylanwad mewn capel ac chymuned sef "HE COUNTED".

Medraf ddweud gyda llaw ar fy nghalon fy mod ac wedi adnabod llawer, pobol hen ac ifanc, bach a mawr, rhai yn alluog, rhai o'r isel rai a rhai yn ddawnus dros ben OND mewn llawer un rhyw ddiffyg yn eu personoliaethau neu yn eu cymeriadau. Mae llawer un wedi dweud wrthyf am ambell i weinidog "Paid a sôn, dydi ei weddi ddim yn cyrraedd to y capel"!! Yn wir, dyweder am un weinidog nad oedd yn cyfri dim. Gall pob swydd bod fel addurniadau lliwgar fod tu allan i falwn tair ceiniog a dim y tu mewn ond gwynt a'r dyn yn cyfrif dim – *he didn't count*.

Wedi dweud hyn i gyd cofier mai nid o fewn un cylch mae dyn yn cyfri. Mae rhai mewn cylch gwlad ac y mae rhai yn ddigon mawr i gyfrif dros gyfandir. Sôn ydw i yn y fan hyn am cylch ardal. Bro mebyd i mi oedd y Porth, Cwm Rhondda a bum yno am 18 mlynedd cyn gadael yn y tridegau. Cofiaf gyda mawr diolch ac anwyldeb y meddyg Dr. John Clarke. Fe ddaeth i'r Porth yn 1925 ac fe adawodd, i ymddeol, yn 1965. Roedd wedi ei eni yn Keith, Mynydd y Grampian, graddio yng Nghaeredin ac fe aeth i lawr i'r cymoedd, ac yn ôl eiriau'i hun "Fe gefais lawer cynnig i fynd o'r Porth ond hoffais y bobol gymaint, roeddwn yn hapus yma." Cytunai pawb mai gŵr bonheddig oedd Dr Clarke a peth mawr yn ei gymeriad oedd nad oedd yn gwahaniaethu rhwng ei fobl. Roedd yn medru bod yn deg er yn galed, fel *"an iron hand in a velvet glove"*. Roedd yn adnabod y glöwyr fel ei blant ei hun ac yn eu hadnabod wrth eu henw cyntaf. Rhoddai ei orau bob amser ac yn fedrus tu hwnt yn ei alwedigaeth fel Ffisegwr a Llawfeddyg.

Glöwr oedd fy nhad ym mhwll y Cymmer yn y Porth, taniwr (*fireman*) a chofiaf ef yn dweud wrthyf hanes damwain yn lefel "*two foot nine*". Cwymp ddigwyddodd ac fe ddaliwyd "Big Steve". Daeth Dr Clarke yno ac yn sôn gyda Steve am y tîm Darts yn y clwb "Rheola" ac wedyn gwneud archwiliad. Aeth i siarad gyda'r glöwyr eraill ac wedyn aeth o'r neilldu am ychydig. Yna, aeth at Steve a dweud bod ganddo ofn buasai rhaid iddo dorri ymaith ei fraich. Ateb Steve oedd "Cymerwch y ddwy, doctor, ond imi fyw". Felly bu. Pam roedd mor hir cyn gwneud? Roedd wedi bod yn holi'r glöwyr i gyd os oedd modd tynnu Steve allan o'r cwymp ond yr ateb oedd bod efallai rhagor o gwymp ac roedd y penderfyniad wedi ei wneud i gau'r lefel oherwydd ei fod yn fan peryglus. Pan aeth Dr. Clarke o'r neilldu oedd yna weddi fach? Myn rhai bod yna. Mae Steve yn dal yn fyw a'r braich dde yn dal i daflu dartiau yn y "Rheola". Gwyn fyd na ellid dweud am bob meddyg fel Dr Clarke ei fod yn y pethau gorau, y pethau mwyaf pwysig mewn moesoldeb, ac yn ei waith HE COUNTED.

***Elwyn***


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

*Cyflwyno*

# ANGHARAD PRICE

**gan y Dr. Pat Williams**

Llenor ac ysgolhaig yw Angharad Price sy'n ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Bangor. Ar ôl graddio mewn Ieithoedd Modern yng Ngholeg Iesu Rhydychen aeth ymlaen i wneud doethuriaeth ar waith y nofelydd Robin Llywelyn. Ers hynny mae hi wedi ysgrifennu tair nofel ei hun. *Tania'r Tacsi* (1999) yw ei nofel gyntaf, sy'n ymwneud â hanes merch sy'n gyrru tacsi a'i hymdrech i ddarganfod y gwir am y cynlluniau i ddatblygu chwarel a melin goed ar gyfer y diwydiant ymwelwyr. Mae'n sôn hefyd am y rhan y mae dychymyg a breuddwydion yn chwarae yn ei bywyd.

Ond y nofel a ddaeth â hi i sylw'r cyhoedd yw *O! Tyn y Gorchudd* a enillodd y Fedal Ryddiaith iddi yn Eisteddfod Genedlaethol 2002 a Gwobr Cyngor y Celfyddydau am Lyfr y Flwyddyn yn 2003. Llinell gyntaf emyn Hugh Jones Maesglasau yw'r teitl, sydd yn cyfeirio'n drosiadol at ddallineb rhai o'r cymeriadau a'u herfyniad i dynnu'r gorchudd oddi ar eu llygaid a gweld yn glir. Mae'r awdur yn cyflwyno hanes ei theulu ar ffurf hunangofiant dychmygol yng ngenau Rebecca Jones, hen hen fodryb yr awdur. Mae tri o frodyr Rebecca yn ddall o'u crud ac mae'r teulu yn gwario'u harian prin i roi addysg iddynt. O ganlyniad does dim cyfle i Rebecca a'i brawd arall dderbyn dim ond addysg elfennol iawn, ond mae hi'n derbyn nerth o'i hamgylchfyd a'i llyfrau. Mae'r disgrifiadau cofiadwy am y newid yn y tymhorau, sy'n drosiad am y newid yn y gymdeithas a'r ffordd o fyw, ynghyd â'r iaith gaboledig, yn gwneud y nofel yn glasur. Mae hi wedi ei chyfieithu i nifer o ieithoedd gan gynnwys Bengali.




*Angharad Price*

Mae ei thrydedd nofel *Caersaint* (2010) yn hollol wahanol. Mae'n ymwneud â chymeriadau a'u problemau mewn lleoliad trefol ond mae'r disgrifiadau o'r tirlun a strydoedd y dref yr un mor drawiadol â'r disgrifiadau o'r wlad yn *O! Tyn y Gorchudd*. Caernarfon yw'r dref mewn gwironedd ond er i'r awdur ei galw ar ei hen enw Caersaint mae'r nofel yn ymwneud â phroblemau economaidd a chymdeithasol y Gymru gyfoes. Jamal Gwyn Jones, bachgen o hil cymysg a gafodd ei fagu mewn 'hôm', yw'r prif gymeriad ac mae'n dychwelyd i'w dref enedigol ar ôl absenoldeb maith. Dychwelodd am iddo etifeddu tŷ gan hen ferch o'r enw Arfonia Bugbird y bu'n ei helpu pan oedd ar wasanaeth cymunedol ac mae'n awyddus bellach i 'ffeindio'i hun', ond mae'n darganfod llawer iawn o bethau am rai o drigolion Caersaint yr un pryd, rhai ohonynt yn gymeriadau digon brith. Mae'r portread o'r rhain yn realistig ac yn dangos mor sylwgar yw'r awdur wrth gyfleu eu sgwrs ffraeth yn nhafodiaith y dref.

Mae Angharad Price wedi cyhoeddi hefyd lyfrau ac erthyglau ar lenyddiaeth Gymraeg nawdegau'r ugeinfed ganrif ac wedi cyfieithu detholiadau o lenyddiaeth Gymraeg i'r Almaeneg ac Eidaleg. Ac ystyried ehanged ei dysg a'i dawn fel ieithydd, nid oedd rhyfedd yn y byd iddi gael nawdd yn 2000 gan Brifysgol Caerdydd i astudio dogfennau yn llyfrgell ac archifdy'r Fatican sydd yn ymwneud â'r Pabyddion hynny a ffôdd o Brydain i'r Eidal yn ystod y Diwygiad Protestannaidd. Yn y gyfrol hon ceir ffrwyth ymchwil fanwl i fyd Gwrthddiwygwyr Cymreig yr Eidal a sylwadau craff a miniog ar y berthynas rhwng eu Catholigiaeth a'u Cymreictod.

Mae ei llyfr *Ffarwél i Freiburg* am ymweliadau T H Parry-Williams yn ddyn ifanc â'r cyfandir yn fwy na disgrifiad o'i anturiaethau. Drwy ei hymchwil manwl i'w bapurau mae hi'n cyfleu a dadansoddi ei feddyliau ac yn dangos y dylanwadau a fu arno, wrth ddod i gysylltiad â rhai o ysgolheigion amlycaf ei oes. Yn y ddau lyfr hyn mae Angharad Price yn cyfuno ei hysgolheictod amlwg a'i dawn i adrodd stori – llyfrau ydynt i addysgu ac i ddiddanu yr un pryd.




*Cyfrol y Fedal Ryddiaith 2002*

# CORNEL Y TRYSORYDD



## CHWEFROR 2021

| | |
|---|---|
| Mrs Lilian Coulthard, Aigburth | £25.00 |
| Mrs Elizabeth Owen, Halewood | £20.00 |
| Rhodd Eglwys Bethania, Lerpwl | £100.00 |
| Mr a Mrs John Wyn Jones, West Cross | £30.00 |
| Mr Selwyn Jones, Penmynydd | £25.00 |
| Mrs Rhiannon Liddell, Wavertree | £20.00 |
| Mr a Mrs Glyn Davies, Rhuthun | £25.00 |
| Parch a Mrs Gwyndaf Richards, Llwydiarth | £20.00 |
| Mrs Devida Broadbent, Lerpwl | £10.00 |
| Mr a Mrs Roderick Owen, Allerton | £25.00 |
| Mr Gwynn a Basia Evans, Llundain | £20.00 |
| Mr a Mrs Clifford Owen, Llanfairfechan | £30.00 |
| Mr a Mrs Dewi Evans, Y Bala | £30.00 |
| **Cyfanswm** | **£380.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

# MAB DUW

Cafodd ei eni mewn helm wair, ei Dad yn saer coed a'i fam yn ddynes ddi-nod, ac yn rhan o gefndir cyffredin. Doedd ganddynt na'r modd na'r gallu i roddi addysg freintiedig i'w mab. Ac eto yn ei arddegau 'roedd yn gallu ymryson, gallu dadleu yn frwd ac ymgynghori â'r prif oedolion yn ei gymdeithas. Ni chafodd waith sefydlog yn oedolyn, ond cerddodd a chrwydrodd o gwmpas y wlad, yn ddigon blêr ei wisg. Ac yn byw yn ddigon di-chwant ar fara a dŵr, ac ambell i bysgodyn. 'Roedd hefyd yn barod i ddatgan ei ddaliadau dadleuol wrth unrhyw un oedd yn barod i wrando.

Daeth, mewn amser, yn reolwr beiddgar ar dîm pêl-droed o'r enw "Y Disgyblion". 'Doeddent ddim yn dîm o'r raddfa uchaf, ac i ddweud y gwir, gwnaeth un ohonynt eu gadael i lawr yn o ddrwg, gan gael ei 'brynu' gan dîm arall am ddeg pisin ar hugain o arian. Yn y diwedd cafodd ei gymeryd i'r ddalfa am arwain dihirod, ac am greu anghydfod yn lleol, ond yn methu gwybod yn glir iawn beth oedd natur ei drosedd, dim ond ei fod yn galw ei hun yn Fab i Dduw.

Er prinder y dystiolaeth yn ei erbyn, cafodd y ddedfryd eithaf, a phenderfynwyd ei grogi ynghyd a dau ddihirod arall. Pan oeddynt yn sicr ei fod wedi marw, a'i gladdu, gobeithient eu bod wedi clywed y diwethaf amdano.

Cafodd tîm pêl-droed "Y Disgyblion" eu darostwng o'r gynghrair ac fe wnaeth eu Capten, ar fwy nac un achlysur, wrthod cyfaddef ei fod erioed wedi bod yn un o'r tîm.

Pan fu farw, pan nad oedd ond yn ei dridegau cynnar, 'doedd neb lawer yn ei golli, allai byth, ond ei deulu a'i ffrindiau agos, yn meddwl dim amdano. 'Doedd na phapur na radio yn cofnodi dim o'i wrhydri, na'i wyrthiau, nac unrhyw fath o siarad am gael coffa i ddangos eu parch tuag ato.

Ond nid oedd ef erioed wedi dibynnu ar eraill i'w gynghori ar y ffordd oreu i fyhafio, na dynion call i'w dywys drwy beryglon y cyfryngau newydd 'ma. Dim meddyg cyfrwys i gadw ei neges a'i ddelwedd yn ffres, a dim yr arian, oedd yn hanfodol i'w cadw ar flaen y gad i'w tywys i'r dyfodol.

Felly gellwch feddwl fod y byd, o'r tu mewn ac o'r tu allan, wedi anghofio am ei fodolaeth o fewn ychydig ddim o amser.

Os felly, sut yn y byd ellweh chwi egluro paham mai IESU GRIST yw'r enw a'r STAR mwyaf poblogaidd yn y byd, ddwy fil o flynyddoedd

**HWYRACH MAI'R ATEB YW,**
**AM EI FOD O DDIFRIF YN FAB I DDUW.**

Addaswyd o'r Saesneg. Ysgrif o eiddo Jeffrey Archer i'w ddefnyddio er budd Ymchwil Cancr U.K.

Troswyd yn gyntaf i'r Gymraeg gan Brian Thomas, Ionawr 2020.


**Cysylltwch â'r**

**YR ANGOR**
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

**garthdriveben@gmail.com**


# GWLEDD ZOOM O LERPWL

## *(Ionawr i Mawrth 2021)*

### AR Y SUL

**IONAWR**
**Bore Sul, 10 Ionawr 2021 am 11 o'r gloch:**
**Oedfa o dan ofal y Parch Robert Parry.**
**Bore Sul 17 Ionawr am 11 o'r gloch:**
**Oedfa o dan ofal y Dr. D. Ben Rees.**
**Bore Sul, 24 Ionawr am 11 o'r gloch:**
**Oedfa o dan ofal y Dr. D. Ben Rees.**
**Bore Sul, 31 Ionawr am 11 o'r gloch.**
**Oedfa y Parch Robert Parry.**

**CHWEFROR:**
**Bore Sul, 7 Chwefror am 11 o'r gloch.**
**Oedfa y Parch Ddr. D. Ben Rees.**
**Bore Sul, 14 Chwefror am 11 o'r gloch.**
**Oedfa y Parch Ddr. D. Ben Rees.**
**Bore Sul, 21 Chwefror am 11 o'r gloch.**
**Oedfa y Parch Robert Parry.**
**Bore Sul, 28 Chwefror am 11 o'r gloch.**
**Oedfa Gŵyl Ddewi o dan ofal Robert Parry.**

**MAWRTH:**
**Bore Sul, 7 Mawrth Oedfa Dewi Sant am 11 o'r gloch. Cennad: Yr Athro D. Ben Rees.**
**Bore Sul, 14 Mawrth am 11 o'r gloch.**
**Oedfa y Parch Robert Parry**
**Bore Sul, 21 Mawrth. Yr un cennad a'r Sul blaenorol ar <u>zoom</u> am 11.**
**Bore Sul, 28 Mawrth. Cloïr y tymor cyntaf gan Dr. Ben Rees mewn oedfa Sul y Blodau. Tyner, Tosturiol.**

### Y GYMDEITHAS LENYDDOL

***Tair Darlith ar Nos Lun rhwng 7.30 a 8.30***

**Nos Lun, 11 Ionawr –** Yr Athro D. Ben Rees ar 'Gaethwasiaeth' (Slavery). Llywydd: Mike Farnworth.
**Nos Lun 8, Chwefror –** Yr Athro D. Ben Rees ar 'Crwydro yn Sir Fflint a Sir Ddinbych'. Llywydd: y Parch Robert Parry.
**Nos Lun, 1 Mawrth –** Dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni y Dr. Bleddyn Owen Huws, Prifysgol Aberystwyth ar 'Carneddog a'i Oes'. Llywydd: Dr. D. Ben Rees.

### DOSBARTHIADAU TRAFOD


**ar y thema Cristnogaeth a Chrefyddau'r Byd**

**1) Sesiwn 1. Pnawn Llun 18 Ionawr 2021 (2 - 3 o'r gloch) ar Efengyl Ioan Pennod 1 adnodau 1-18 o dan ofal y Parchg D. Ben Rees.**
**2) Sesiwn 2. Pnawn Llun 1 Chwefror 2021 (2 - 3 o'r gloch) ar Rhufeiniaid, pennod 1 adnodau 1-4 a 18-25 o dan ofal y Parch Robert Parry.**
**3) Sesiwn 3. Pnawn Llun 15 Chwefror 2021 (2- 3 o'r gloch) ar Colosiaid pennod 1 adnodau 15-20 o dan ofal y Parch Dr D. Ben Rees.**
**4) Sesiwn 4. Pnawn Llun 8 Mawrth 2021 (2-3 o'r gloch) ar Luc 5 : 17-26; Rhufeiniaid 3: 21-26 o dan ofal y Parch Robert Parry.**
**5) Sesiwn 5. Pnawn Llun 22 Mawrth 2021 (2 i 3 o'r gloch) ar Epistol at y Rhufeiniaid 5 :5; a: 1-27 o dan ofal Dr D. Ben Rees.**

**<u>Croeso i bawb i bob un o'r cyfarfodydd hyn, gwledd i'r glust, i'r galon ac i'r gymuned</u>**

# JIM: THE LIFE AND WORK OF JAMES GRIFFITHS:

## a Hero of the Welsh Nation and Architect of the Welfare State




***D. Ben Rees***
**Jim: The life and work of the Rt. Hon. James Griffiths: A hero of the Welsh nation and architect of the welfare state**
(Cyhoeddiadau Modern Cymreig),
353 pp Clawr Caled. £20.00

Wele gyfrol sylweddol dros ben mewn mwy nag un ystyr, astudiaeth safonol a fydd yn sicr yn apelio'n fawr at bawb sydd yn ymddiddori yn hanes gwleidyddol ein gwlad. Bydd yn sicr o dderbyn croeso cynnes.

Roedd y Gwir Anrhydeddus James Griffiths yn un o'r ffigyrau amlycaf o fewn y Blaid Lafur yng Nghymru o'r 1930au hyd at ei farwolaeth ym 1975. Gwasanaethodd fel yr AS dros etholaeth Llanelli o 1936 hyd at ei ymddeoliad ym 1970. O fewn gwleidyddiaeth Prydain Fawr yn ogystal roedd ei gyfraniad o bwys aruthrol mewn nifer o swyddogaethau gwahanol. Yn fwyaf arbennig fel y Gweinidog dros Yswiriant Cenedlaethol dan Attlee, 1950-51, yna fel Gweinidog y Trefedigaethau, 1950-51, swydd a welodd ei ddyrchafiad i gabinet y Blaid Lafur, ac yn olaf fel yr Ysgrifennydd cyntaf dros Gymru o dan Harold Wilson, 1964-66. 'Does fawr o syndod i bobl falch gorllewin Cymru, a oedd yn ei edmygu'n fawr iawn, ei gyfarch yn gynnar iawn yn ei yrfa fel 'ein Jim ni', un a oedd yn siŵr o fynd ymhell yn ei yrfa.

Tan yn ddiweddar doedd neb wedi mentro ar y dasg o lunio cofiant academaidd llawn i'r ffigwr hollbwysig hwn, cyfraniad a oedd ei ddirfawr angen. Roedd Jim Griffiths ei hun wedi llunio cyfrol o atgofion difyr sef *Pages from Memory,* gwaith a gyhoeddwyd gan gwmni Dent ym 1969, ond roedd yr awdur yn hynod o ofalus, yn wylaidd ac yn gyndyn i ddatgelu llawer iawn o wybodaeth. Yna, yn 2014, cyhoeddodd yr awdur presennol (a fu'n astudio Griffiths yn arbennig o ddifrif ers o leiaf 2009) gyfrol o gofiant yn yr iaith Gymraeg sef *Cofiant James Griffiths: Arwr Glew y Werin* (Gwasg y Lolfa), astudiaeth a oedd yn gyfraniad aruthrol bwysig, a rhoddwyd croeso cynnes i'r gwaith. Mae Dr Rees yn edmygu ei wrthrych yn fawr iawn, ond nid yw'n ei eilyn-addoli. Drwy gydol ei gofiant mabwysiadodd agwedd ddi flewyn ar dafod at ei waith.

Addasiad i'r Saesneg o gyfrol 2014 a gynigir inni yma. Mae ganddi nifer fawr iawn o gryfderau pendant. Trawiadol yw'r rhan bwysig a chwaraeodd yr awdur ei hun o fewn gwleidyddiaeth Llafur byth ers ei ddyddiau ysgol yn y 1940au ymlaen, ymrwymiad a ddylanwadodd yn fawr ar ei ymchwil bersonol a'i ysgrifennu. Yn ail, bu mewn cysylltiad personol gyda Jim Griffiths, o leiaf ar adegau, o etholiad cyffredinol 1959 ymlaen. Yr adeg honno fe fentrodd Griffiths i Sir Aberteifi i annerch cyfarfodydd cyhoeddus ar ran yr ymgeisydd Llafur ar y pryd sef Loti Rhys Hughes.

Yn drydydd, amlwg iawn yw adnabyddiaeth yr awdur o'r archif sylweddol o bapurau James Griffiths ei hun sydd yng ngofal y Llyfrgell Genedlaethol. Bu'r awdur hefyd yn twrio o fewn nifer o archifau eraill sydd yn y Llyfrgell ac mewn archifai eraill, ac mae'n amlwg iddo ddarllen yn rhyfeddol o eang ar hanes y Blaid Lafur yng Nghymru'n arbennig ac o fewn Prydain Fawr yn fwy cyffredinol – ar gyfer yr astudiaeth hon ac amryw eraill. Hefyd roedd modd iddo gyfweld nifer o gyfeillion mynwesol Jim Griffiths, pobl fel y diweddar Gwilym Prys Davies, un a oedd Rees a Griffiths ill dau yn ei barchu'n fawr iawn dros ben.

Y canlyniad yw cofiant cytbwys, hynod o deg a darllenadwy, gwaith arloesol sydd yn bleser pur ei ddarllen o glawr i glawr. Yr hyn sydd yn creu argraff anghyffredin o bwerus arnom yw dealltwriaeth Dr Rees o'r hanes lleol cymhleth a'r cysylltiadau teuluol sydd yn goleuo blynyddoedd cynnar Jim Griffiths a'i fagwraeth o fewn Cwm Amman, ardal a oedd yn fwrlwm o fywyd diwylliannol a llenyddol a gweithgareddau anghydffurfiol. Ac un o'i frodyr oedd y bardd Cymraeg tra adnabyddus Amanwy (David Rees Griffiths), un sydd yn dod i'r amlwg yn y stori hon o bryd i'w gilydd.

Yr ardal hon oedd canolbwynt y diwydiant glo carreg, ac yma daeth gwleidyddiaeth Llafur i'r brig yn ystod y cyfnod rhwng y ddau ryfel byd. Ac, fel y dangosir yma, Jim Griffiths oedd yn bennaf gyfrifol am sefydlu cangen o'r Blaid Lafur Annibynnol yma yn Rhydaman. Roedd Griffiths a'i gyfeillion adain dde yn benderfynol o wrthod y Rhyddfrydiaeth ddofn a ffurfiodd asgwrn cefn daliadau gwleidyddiaeth eu rhieni, unigolion a oedd yn addoli ffigyrau fel W. E. Gladstone, T. E. Ellis ac, ychydig yn ddiweddarach, David Lloyd George. Roedd gwleidyddion Llafur fel Jim Griffiths a Nye Bevan yn hoffi honni iddynt ar ôl 1945 ymestyn tasgau angenrheidiol a oedd Lloyd George yntau wedi gosod seiliau cadarn ar eu cyfer cyn blynyddoedd y Rhyfel Mawr.

Mae Dr Rees wedi llwyddo drwy gydol yr astudiaeth i greu cydbwysedd arbennig rhwng y sylw a roddir i gampau gwleidyddol niferus Jim Griffiths a'i fywyd personol a theuluol yn Llanelli ac o fewn dinas Llundain, ac yn rhoi sylw teg i'w gyfraniad yn San Steffan a'i rôl o fewn Cymru fach lle ymladdai'n ddygn dros gonsesiynau graddol i'r ymdeimlad o genedligrwydd a oedd ar dwf drwy gydol ei yrfa.

Yn ein hoes ninnau mae nifer o gefnogwyr datganoli yn ystyried Griffiths fel un o dadau'r mudiad a arweiniodd at sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol Cymreig o fewn Bae Caerdydd ym 1999. Diolch i'r Dr Rees, bydd y ddau gofiant hyn yn sicrhau na fydd campau a chyfraniad Jim Griffiths byth yn cael eu hanghofio gan genhedlaeth iau o ddarllenwyr sydd o reidrwydd llawer iawn llai cyfarwydd gyda'r digwyddiadau a olrheinir mor gelfydd yma gan yr awdur.

Nid y lleiaf o ragoriaethau niferus yr astudiaeth wych hon yw'r casgliad o ffotograffau a darluniau a ddewiswyd gan yr awdur. Gwasg Gomer, Llandysul oedd yn gyfrifol am argraffu'r gyfrol, a gwnaethpwyd hyn i'r safonau uchaf posibl. Yn ogystal ceir mynegai reit fanwl. Mae'r Dr Rees a Chyhoeddiadau Modern Cymreig wedi cynhyrchu cyfrol sydd yn hollol deilwng o Jim Griffiths.

***J. Graham Jones***

# Gofal Dydd y Waen

Ar ran pawb sydd ynghlwm gyda Gofal Dydd y Waen, hoffem ddiolch yn fawr iawn i bawb o ardal Lerpwl a fu mor garedig yn ein cefnogi eleni trwy brynu cardiau Nadolig. Oherwydd fod rhaid archebu y cardiau Nadolig ym mis Ionawr, roeddent ar y ffordd pan ddaeth y cyfnod clo a penderfynwyd y byddem yn eu gwerthu trwy y post. Bu hyn yn llwyddiant mawr a rhan fwyaf o gardiau wedi gwerthu allan a hyn wedi codi ychydig dros £1,000 ini sydd yn golygu gymaint mewn blwyddyn ble nad oedd yn bosib cynnal ein marchnad Nadolig nag unrhyw weithgaredd i godi arian. Anfonodd ambell un nodyn yn dweud byddent yn hoffi gwybod rhagor amdanom felly dyma ychydig o grynodeb o'n hanes a'n gwaith.

Agorwyd Gofal Dydd y Waen ym Mehefin 2011. Roedd ganddom estyniad bach fel Festri ac yn awyddus iawn i wasanaethu ein cymuned o bob ffydd a dim.

Bu inni wneud ymchwiliad trylwyr a siarad gyda amryw cyn cychwyn. Penderfynwyd seilio y Gofal Dydd ar model gofal Hosbis – sef gofal gwbwl holistig yn trin pawb fel unigolyn ac fel Dewi Sant yn cofio mae 'gwneud y pethau bychain' sydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r rhai sydd yn dod atom. Gwirfoddolwyr wedi cael hyfforddiant ydym i gyd a rydym yn talu i gwmni sydd gyda trafnidiaeth anabl am trafnidiaeth o ddrws i ddrws, costau darparu bwyd ac wrth gwrs yn talu am yr ystod o eang o weithgareddau rydym yn ddarparu o wythnos i wythnos sydd yn amrywio o Paentio / Arlunio, Crefft, Garddio, Trefnu Blodau, Sgyrsiau, Cyngherddau, Coginio, Pobi, Tai Chi, Triniaethau Amgen, Gwneud gwallt ayb. Ers y dechrau rydym wedi ceisio helpu pawb sydd mewn angen ond rydym yn rhoi blaenoriaeth i rhai sydd yn byw mewn ardaloedd gwledig; rhai sydd yn byw gyda teulu er mwyn i teuluoedd cael ysbaid cyson wythnosol a pobl iau sydd yn byw gyda salwch hir dymor.

Rydym yn unigryw gan ein bod yn darparu Gofal Dydd trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn hollol wirfoddol.

Dros bron i ddeng mlynedd rydym wedi rhoi gofal i dros 250 o unigolion a'u teuluoedd. Mae rhan fwyaf sydd yn cael eu cyfeirio yn dod trwy law gweithwyr gwasanaethau cymdeithasol / nyrsus cymunedol ond gall teulu a ffrindiau gyfeirio hefyd. Roedd yr ieuengaf wedi ei gyfeirio yn ei 30au a'r hynaf dros 100 oed. Rydym yn derbyn pobl gyda salwch megis cancr, clefyd Parkinsons, MS, MND, clefyd y galon, alcoholiaeth, rhai ar deialysis a dementia ac ar hyn o bryd mae 3 dan 50 oed yn dod atom. Yn 2016 bu ini gychwyn ail ddiwrnod yn wythnosol gan fod yr angen mor fawr a fel ein bod yn gallu cynnig ddau ddiwrnod o ofal mewn amgylchiadau ble mae angen oherwyd iechyd yr unigolyn neu sefyllfa teuluol. Yn 2018 bu ini agor crèche ble mae plantos lleol rhwng 2-4 oed yn dod draw i rannu gweithgareddau gyda'r rhai sydd yn mynychu Gofal Dydd – yn wahanol i'r rhaglenni teledu o arbrawf am wythnos neu ddau, mae y crèche yn agored bob wythnos a'r perthynas rhwng yr hynaf a'r lleiaf yn tu hwnt o werthfawr.

Rydym wedi ail agor wedi y cyfnod clo ond i grwpiau bach o 6 (roedd 12-15 yn dod gyda'u gilydd bob diwrnod cyn y cyfnod clo) ac yn cyfarfod yn y Capel i roi lle i ymbellhau ac i gadw pawb yn ddiogel ac er eu fod yn wahanol, mae y gofal y croeso a'r cariad yn parhau a pawb yn gwerthfawrogi ein bod wedi ail agor ac yn gobeithio ehangu pan fydd yn ddiogel ini wneud.

Rydym yn credu eu fod mor bwysig peidio segregeiddio pobl o ran oedran nag anabledd – ein pwyslais yw yr unigolyn nid label eu salwch a fod Gofal Dydd yn adlewyrchu y gymuned gyda bob oedran yn rhannu gweithgareddau, cael llawer o hwyl ac yn helpu ei gilydd.

Daw y rhan fwyaf atom o Sir Ddinbych ond mae rhai hefyd o Siroedd Conwy a Fflint ac mae rhai yn teithio dros 25 milltir un ffordd i ddod atom. Nid ydym wedi cael neb atom o Lerpwl (hyd yma!) ond cafwyd cais i rywun ddod atom o Loegr a'r cynllun oedd iddynt deithio ar y trên i Rhyl a bydde y bws mini anabl rydym yn talu i gludo i Ofal Dydd yn eu cyfarfod oddi wrth y trên a'r un sefyllfa i fynd adref ond yn anffodus bu i'r teulu orfod symud a felly nid oedd yn bosib iddynt fynychu.

Mae y gost o gynnal Gofal Dydd yn £30,000+ y flwyddyn sydd yn swm enfawr ini godi ac yn anoddach ini eu godi bob blwyddyn. Nid ydym yn gofyn am swm o arian i fynychu Gofal Dydd ond mae y rhan fwyaf sydd yn dod atom yn cyflwyno rhodd o £10 tuag at y costau sydd yn £40 y person y diwrnod.

Dros y blynyddoedd rydym wedi cael llawer iawn o fendithion a hwyl ond hefyd wrth gwrs wedi cael tristwch mawr o golli nifer o deulu Gofal Dydd. Rydym yn parhau i roi gofal tan y misoedd, wythnosau ac mewn rhai achosion y dyddiau olaf o fywyd cyn belled ein bod yn gallu rhoi y gofal sydd eu hangen, mae rhai yn parhau i ddod atom. Rydym yn ceisio cynnal teuluoedd tra mae eu annwyliaid gyda ni ac yn glust i wrando ar eu gofidiau a'u profiadau… mae amryw o deuluoedd wedi disgrifio gofal dydd fel amhrisiadwy ac yr ysbaid wythnosol yn eu galluogi i barhau i ofalu gartref yn hirach na fyddent wedi heb Ofal Dydd. Gobeithiem cael cyfle yn nes ymlaen yn 2021 i ddathlu ein penblwydd yn 10 oed a chael cofio a diolch a hefyd i feddwl sut allem barhau i wasanaethu y rhai mwya bregus yn ein cymunedau yn y 10 mlynedd nesa a thu hwnt.

*Yr Athro Mari Lloyd Williams*







# CWIS NADOLIGAIDD BETHEL

Dydd Mercher cyn y Nadolig cynhaliwyd y cwis rithiol olaf am y flwyddyn. Buom yn ffodus dros ben i gael cwmni Siôn Corn i ofyn y cwestiynau mewn cyfnod mor brysur iddo. Enillydd y gystadleuaeth oedd Margaret Anwyl Williams a chafodd anrheg gan Siôn Corn am ei llwyddiant. Diolch i bawb arall sydd wedi bod yn barod i helpu trefnu cwis yn ystod y cyfnod clo eleni.




**Rhai oedd yn cymerwyd rhan yn y Cwis**

## CYDNABOD HAELIONI

Dymuna Nan Hughes Parry ddiolch o galon i aelodau a charedigion Eglwys Bethel am eu cyfraniad i Apêl Whitechapel i sicrhau gwely a bwyd i'r di-gartref yn ein dinas. Bu mwy o angen ag erioed eleni. Anfonwyd siec o £450 ar eich rhan.

*Gyda diolch*
*Nan Hughes-Parry*

The Whitechapel Centre




***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn,*
*Y Bala, Gwynedd LL23 7UH*
*07729 960484*